

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Hydref 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. McAlpine, Mrs. W. Mullen-James, S. Ratcliffe, Miss S. Roberts, A.R. Rutherford, Miss R. Siddall, a T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

26. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr Ms J. Hughes (ymrwymiad teuluol), B. F. Moylan (yn sâl), a'r Parch. S. Walker (ymrwymiad gwaith).

27. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

CEISIADAU CYNLLUNIO	
27.1	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> 24 Bryntirion Avenue, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0907</p> <p>Adeiladu estyniad a newidiadau i dŷ annedd.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Mr. Jay Ashley, o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
27.2	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> Tir yn Ne-ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2015/1216</p> <p>Disodli mathau tai ar leiniau 139 – 142 yn gynwysedig (newidiadau i</p>

	<p>gynllun a gymeradwywyd eisoes ar gyfer cyfnod 1 cyf 45/2007/1233/PR)</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Anwyl Construction Co Ltd o Anwyl House, Mona Terrace, Prince Edward Avenue, y Rhyl.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
27.3	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> 2 Pen Y Bryn Cottages, Morfa Cwybr, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0876</p> <p>Trosi modurdy mewnol presennol yn ystafell aml-bwrpas.</p> <p>Yr Ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Williams o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
27.4	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> Safle Theatr y Pafiliwn a'r Heulfan, a thir/meysydd parcio cyffiniol, Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0740</p> <p>Ailddatblygu 4.25ha o dir yn ymgorffori'r elfennau hybrid (Llawn/Amlinell) canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dymchwel yr hen "Heulfan" ac ailwampio tu allan Theatr y Pafiliwn sy'n cyffinio gan ymgorffori cladio (Llawn) - Adeiladu Canolfan Arddangos/Ddigwyddiadau 4,000 medr sgwâr Dosbarth D2 fel estyniad i Theatr y Pafiliwn (Amlinell) - Adeiladu gwesty Dosbarth C1 73 llofft (Llawn) - Adeiladu 2 fwyty Teulu Dosbarth A3 (Amlinell) - Cadw ac ail-ddefnyddio ciosg manwerthu presennol ac adeilad sied trên tir at ddefnydd manwerthu/hamdden/cymunedol (Llawn) - Maes parcio newydd ac wedi ei ail-lunio i geir/bysys (Llawn) - Gwelliannau a newidiadau i fynedfa a mannau troi presennol i gerbydau (Llawn) - Manylion tirlunio caled a meddal (Llawn/Amlinell). <p>Yr Ymgeisydd yw Neptune Developments Ltd., 2 Queen Square, Lerpwl</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
27.5	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p>

	<p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0925</p> <p>Manylion golwg, cynllun a maint ar gyfer dwy uned dosbarth A3 ac un bwyty gyrru trwodd dosbarth A3 a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 caniatâd cynllunio amlinell 45/2013/1510 (Cais Materion Neilltuedig - Cyfnod 2)</p> <p>Yr Ymgeiswyr yw Scarborough Development Group (Rhyl)</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
27.6	<p><u>LEOLIAD Y SAFLE:</u> 22 John Street, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0905</p> <p>Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol eiddo fel 4 fflat ollgynhwysol a oedd yn torri amod.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Mr. Colin Bailey o 6 Queens Drive, Nantwich</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>

28. **SAFLEOEDD TIR ANNIBEN**

Ymhellach i Gofnod Rhif 23 cyfarfod 21ain Medi 2016, gofynnodd y Cadeirydd / Clerc y Dref am fanylion safleoedd tir anniben a adnabuwyd gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD *mai'r safleoedd a adnabuwyd yw*

- *South Kinmel Street*
- *21a Stanley Park Avenue, a*
- *Rhan o'r Ardal Gemau Aml-ddefnydd, Crescent Road, y Rhyl*

29. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: